



Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

Polis Sgiliau

Dyddiad Cyhoeddi	Medi 2017
Dyddiad Adolygu	Medi 2019
Awdur	Kay Morgan, Is-bennaeth
Lleoliad y Polisi	BIZ-Sharepoint/Intranet/Policies & Procedures/Quality
Polisi wedi'i Gymeradwyo gan:	Tim Rheoli'r Coleg

1. Ymrwymiad i Sgiliau a Choleg Gŵyr Abertawe

- 1.1 Mae Coleg Gŵyr Abertawe wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol, cyflogadwyedd ac entrepreneuriaidd fel bod dysgwyr yn symud y tu hwnt i'r lefel sydd gyda nhw adeg dechrau yn y Coleg ac ennill achrediad allanol pan fo'n berthnasol. Mae'r cyfleoedd hyn yn datblygu sgiliau trosglwyddadwy sy'n helpu dysgwyr i ateb gofynion eu rhaglen astudio, yn cefnogi dilyniant ac yn darparu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd ac i aros mewn gwaith. Bydd datblygu'r sgiliau hyn yn rhoi mantais gystadleuol i ddysgwyr, mantais sydd ei hangen arnynt yn y farchnad swyddi gystadleuol a'r economi heriol heddiw.

Sgiliau ar gyfer Dilyniant

- 1.2 Mae Coleg Gŵyr Abertawe wedi ymrwymo i ymgorffori sgiliau trwy "ddull sefydliad cyfan" o asesu, addysgu a chymorth. Ar draws y coleg, gelwir hyn yn 'Sgiliau ar gyfer Dilyniant' ac mae'n cynnwys sgiliau ar gyfer llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol a chyflogadwyedd.

2. Cwmpas

- 2.1 Mae'r cwricwlwm Sgiliau ar gyfer Dilyniant yn cynnwys cyfuniad o'r canlynol fel sy'n briodol i bob cwrs ac i bob dysgwr unigol:

- Cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ar draws pob agwedd ar y cwricwlwm
- TGAU Saesneg Iaith, Cymraeg, Mathemateg, Rhifedd.
- Sylw i Saesneg a Sylw i Fathemateg ar gyfer dysgwyr TGAU gradd E-G
- Cymhwyster Bagloriaeth Cymru – heriau sgiliau
- Gweithgareddau menter
- Profiad gwaith, amgylcheddau gwaith realistig y Coleg, gwaith gwirfoddol/yn y gymuned a gweithgareddau cysylltiedig â gwaith wedi'u hefelychu.
- Cymwysterau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL)
- Pecyn cymorth WEST
- Datblygu sgiliau Cymraeg
- Cymwysterau llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol a chyflogadwyedd perthnasol eraill.
- Cymwysterau Sgiliau Hanfodol hyd at lefel 3 yn y canlynol:
 - Cyfathrebu
 - Cymhwyso Rhif
 - Llythrennedd Digidol
 - Sgiliau Cyflogadwyedd

2.2 Mae dulliau cymorth ychwanegol i ddatblygu sgiliau yn cynnwys:

- Cymorth Llythrennedd a Rhifedd
- Cymorth Dyslecsia
- Datblygu sgiliau ar y cwrs
- Cyfraniad Cynorthwydd Cymorth Dysgu/Swyddog Cymorth Addysgol
- Deunyddiau dysgu ar-lein
- Gweithgareddau menter a drefnir gan yr Hyrwyddwr Menter
- Cymorth sgiliau astudio a sgiliau hanfodol cyffredinol ar gael yng Nghanolfannau Adnoddau Dysgu'r Coleg

3. Amcanion

- 3.1 Nodi anghenion unigol dysgwyr yn gywir trwy'r broses recriwtio ac asesu / ddiagnostig.
- 3.2 Helpu dysgwyr i oresgyn unrhyw rwystrau i ddysgu, gwella hyder, presenoldeb, cadw a chyrhaeddiad.
- 3.3 Cael dysgwyr i berfformio ar lefel sgiliau sy'n briodol ar gyfer eu rhaglen astudio.
- 3.4 Darparu rhwydwaith cymorth hyblyg a dwyieithog ar gyfer datblygu sgiliau.
- 3.5 Datblygu'r gwaith o addysgu ac asesu'r cwricwlwm sgiliau yn ddwyieithog lle mae sgiliau staff yn bodoli ac y gellir eu datblygu.
- 3.6 Sicrhau bod strategaethau ac adnoddau effeithiol yn cael eu defnyddio i ddatblygu sgiliau trwy gydol y broses ddysgu ar gyfer pob dysgwr.
- 3.7 Darparu cwricwlwm sgiliau priodol fel y'i nodir yn y Cyfeiriaduron Rhaglenni Dysgu neu'r Fframweithiau Dysgu Seiliedig ar Waith.
- 3.8 Rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau yn rhan-amser trwy raglenni Addysg Sylfaenol i Oedolion (ASO) ac ESOL.
- 3.9 Sicrhau darparariaeth rhaglen datblygu staff effeithiol – Sgiliau ar gyfer Staff – i staff sy'n ymwneud âg addysgu a chefnogi sgiliau, gan gynnwys ymgorffori sgiliau llythrennedd a rhifedd, llythrennedd digidol a sgiliau cyflogadwyedd ar gyfer yr holl staff sy'n wynebu dysgwyr.
- 3.10 Monitro a gwerthuso cyfraddau cyfranogi, canlyniadau ac effeithiolrwydd addysg a chymorth y cwricwlwm sgiliau.

- 3.11 Rhoi cymorth i staff o ran helpu dysgwyr i wella eu sgiliau mewn amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol e.e. dysgu achrededig ac anachrededig, dysgu cyfunol ac e-ddysgu.

4. Asesu Anghenion Sgiliau Dysgwyr

- 4.1 Trwy'r rhaglen Sgiliau ar gyfer Dilyniant, bydd dysgwyr yn sefyll Prawf Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST) ar-lein cyn cofrestru ac yn unol â Pholisi Gweithredu WEST Llywodraeth Cymru. Caiff y canlyniadau eu rhannu â'r staff fel bod yr holl staff yn ymgorffori datblygu sgiliau yn eu gwaith. Bydd canlyniadau WEST i'w gweld mewn cynlluniau dysgu unigol electronig dysgwyr a bydd cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu pan fo'n briodol.
- 4.2 Caiff sgiliau myfyrwyr ASO ac ESOL eu hasesu mewn cyfweiliad cychwynnol cyn dechrau eu rhaglen.
- 4.3 Bydd myfyrwyr Sgiliau Byw'n Annibynnol yn cael eu hasesu trwy'r offeryn asesu Sgiliau Byw'n Annibynnol gyda'r nod o ateb eu hanghenion.
- 4.4 Bydd dysgwyr amser llawn a dysgu seiliedig ar waith yn sefyll prawf WEST i lywio eu cynllun dysgu unigol electronig (e-CDU) (ENGAGE) a dechrau'r broses o osod targedau.
- 4.5 Gan ddechrau gyda cohort Medi 2017, bydd dysgwyr yn cwblhau gweithgareddau ym Mhecyn Cymorth WEST, a chânt eu monitro gan eu tiwtor yn erbyn targedau'r e-CDU.
- 4.6 Bydd pob dysgwr amser llawn yn cwblhau'r Catalydd Mentro sy'n darparu dadansoddiad o sgiliau a rhinweddau menter a chyflogadwyedd y dysgwyr.
- 4.7 Anogir pob dysgwr i ddatgelu eu hanghenion a thrafod eu gofynion gyda'r staff priodol.

5. Sgiliau ar gyfer Dilyniant trwy Addysgu'r Cwricwlwm

- 5.1 Bydd yr holl raglenni dysgu amser llawn yn cynnwys ystod o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol a chyflogadwyedd fel y'u hamlinellir yn y ddogfen Sgiliau ar gyfer Dilyniant.
- 5.2 Ar y dechrau bydd dysgwyr yn ceisio gwastatáu eu proffil anwastad ac yna, byddant yn datblygu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol fydd o leiaf un lefel yn uwch na'u hasesiad cychwynnol.
- 5.3 Bydd dysgwyr sydd â Gradd D mewn Saesneg Iaith (neu Gymraeg) a Rhifedd yn gweithio tuag at ailsefyll yr arholiada TGAU hyn.

- 5.4 Bydd dysgwyr sydd â gradd E, F neu G mewn TGAU Saesneg a Rhifedd yn dilyn cwrs Sylw i Saesneg neu Sylw i Fathemateg i gynyddu eu sgiliau i baratoi i ailsefyll yr arholiad TGAU pan fyddant yn barod. Pan fo'n briodol, bydd dysgwyr Lefel 1 yn astudio Sgiliau Hanfodol ar y lefel fwyaf priodol.
- 5.5 Yn achos dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni cyn-fynediad a rhaglenni lefel mynediad, dylid ymgorffori gwaith datblygu sgiliau (Sgiliau Byw'n Annibynnol) ar draws eu cwricwlwm cyfan.
- 5.6 Caiff y cwricwlwm sgiliau ei ymgorffori'n llawn yn y brif raglen astudio a chaiff sesiynau arwahanol eu cyflwyno yng nghyd-destun y brif raglen astudio.
- 5.7 Bydd y cwricwlwm sgiliau yn cael ei addysgu gan un o'r canlynol:
- arbenigwyr sgiliau hanfodol â chymwysterau addas.
 - arbenigwyr TGAU (ar gyfer cymwysterau TGAU)
 - darlithwyr / aseswyr sydd wedi ennill cymwysterau ymarferwr sgiliau hanfodol
 - darlithwyr / aseswyr sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth Sgiliau neu CBC ac yn gweithio o dan gyfarwyddyd arbenigwyr sgiliau.
- 5.8 Rhaid i'r holl staff sy'n ymwneud â darparu ac asesu sgiliau fynychu'r cyfarfodydd rhwydwaith cymorth mewnol perthnasol.

6. Cymorth Sgiliau i Ddysgwyr

6.1 I Ddysgwyr Dynodedig

Bydd dysgwyr sydd â chanlyniad WEST is na lefel 1 yn cael cynnig cymorth llythrennedd/rhifedd ychwanegol a ddarperir gan staff arbenigol trwy amrywiaeth o ddulliau, megis:

- Cymorth un i un
- Cymorth yn y dosbarth
- Adnoddau ar-lein

Cyflawnir hyn trwy:

- Nodi rhwystrau unigol i ddysgu.
- Darparu ystod eang o gymorth wedi'i deilwra i anghenion unigol y dysgwr ac wedi'i gofnodi ar yr e-CDU.
- Trafod cynlluniau dysgu unigol â dysgwyr.
- Adolygu a gwerthuso cynnydd dysgwyr.
- Helpu dysgwyr i gynhyrchu cynlluniau gweithredu ystyrlon, adolygu a gosod targedau y gellir eu cyrraedd.
- Darparu cymorth ac arweiniad parhaus er mwyn i ddysgwyr symud ymlaen.

6.2 I'r Holl Ddysgwyr

Fel rhan o'r ffocws ar Sgiliau ar gyfer Dilyniant, mae'r Coleg yn disgwyl i bob aelod o staff ysgwyddo cyfrifoldeb am gefnogi gwaith datblygu sgiliau ym mhob dosbarth gyda phob dysgwr. Ategir hyn trwy:

- Ddefnyddio pecynnau cymorth WEST gyda chymorth adrannau penodol ar y Parth Athrawon, sy'n darparu amrywiaeth o syniadau ac adnoddau i staff.
- Cysondeb o ran marcio ac adborth.
- Gweithgareddau HMS i godi ymwybyddiaeth staff o bwysigrwydd datblygu sgiliau a chyngor ar ymgorffori sgiliau wrth addysgu cyrsiau.
- Cyfranogiad y Tîm Dysgu ac Addysgu i helpu i gynhyrchu deunyddiau i gefnogi gwaith datblygu sgiliau, e.e. geiriaduron pwnc-penodol ar y bwrdd gwaith a chanllawiau ar ysgrifennu aseiniadau effeithiol.
- Cyfleu canlyniadau asesiadau cychwynnol/diagnostig i staff i lywio strategaethau a gwahaniaethu.

Gall dysgwyr sydd heb gael eu nodi fel dysgwyr y mae angen cymorth arnynt yn ôl yr asesiad cychwynnol gael mynediad at y dulliau cymorth trwy hunanatgyfeirio neu atgyfeiriad gan staff.

7. Rolau a Chyfrifoldebau

- 7.1 *Is-bennaeth Gwasanaethau Academaidd:* arwain goblygiadau polisiau a strategol.
- 7.2 *Uwch Reolwyr Cwricwlwm:* sicrhau bod polisiau yn cael eu gweithredu o fewn meysydd cwricwlwm a sicrhau bod cysondeb.
- 7.3 *Rheolwr Sgiliau:* arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth Sgiliau, gan ddarparu cymorth a chyfarwyddyd yn ôl yr angen.
- 7.4 *Rheolwyr Gweithredol y Cwricwlwm:* bod yn gyfrifol am addysgu Sgiliau ar gyfer Dilyniant a'u canlyniadau o fewn eu meysydd cwricwlwm a hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu sgiliau gan yr holl staff addysgu. Sicrhau bod sgrinio cychwynnol a phroffion diagnostig yn cael eu trefnu a'u gweithredu.

- 7.5 *Rheolwr Cymorth Dysgu*: bod yn gyfrifol am y sgrinio cychwynnol a'r profion diagnostig a sicrhau bod myfyrwyr dynodedig yn cael cymorth priodol.
- 7.6 *Cydlynnydd Sgiliau Hanfodol*: monitro ansawdd yr asesu, i gyfleu newidiadau cwricwlwm, cynghori ar batrymau addysgu a chydgyssylltu ag asiantaethau allanol a gwirwyr allanol.
- 7.7 *Rheolwr Ansawdd-Datblygu Dysgu ac Addysgu*: monitro datblygiad llythrennedd a rhifedd ar draws yr holl gyrsiau a darparu datblygiad proffesiynol parhaus priodol i gefnogi staff darlithio i wella llythrennedd a rhifedd.
- 7.8 *Hyrwyddwr Menter*: annog a chefnogi'r gwaith o adnabod a darparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd ac entrepreneuriaid.

8. Trefniadau Monitro ac Adrodd

- 8.1 Bydd y Rheolwr Sgiliau yn goruchwylio gweithrediad y polisi a'r strategaeth sgiliau a bydd yn rhoi diweddariadau rheolaidd i Grŵp Rheoli Ansawdd y Coleg a phwyllgorau perthnasol eraill.
- 8.2 Bydd y Cydlynnydd Sgiliau Hanfodol yn goruchwylio darpariaeth y cwricwlwm sgiliau hanfodol ar draws y Coleg, trwy ddarparu dull cymorth a dull o sicrhau ansawdd a bydd yn darparu adroddiadau blynyddol.
- 8.3 Caiff priodoldeb y cwricwlwm sgiliau ei fonitro gan y broses cynllunio cwricwlwm dan arweiniad Is-bennaeth Gwasanaethau Academaidd.
- 8.4 Bydd Sgiliau ar gyfer Dilyniant yn eitem reolaidd ar yr agenda yng nghyfarfodydd Rheoli Cyfleusterau, Grŵp Ansawdd y Coleg a Grŵp Rheoli Cwricwlwm/Ansawdd.
- 8.5 Caiff canlyniadau'r cwricwlwm sgiliau eu monitro fel rhan o'r cylch ansawdd ochr yn ochr â chymwysterau'r brif rhaglen.
- 8.6 Caiff cynnydd dysgwyr mewn sgiliau hanfodol ei fonitro fel rhan o'r adolygiad cynnydd rheolaidd a gynhelir gan y tiwtor personol.
- 8.7 Bydd y Rheolwr Cymorth Dysgwyr yn cwblhau adroddiad blynyddol ar angen ac effeithiolrwydd cymorth arbenigol a'r nifer sy'n manteisio arno.
- 8.8 Bydd effeithiolrwydd y cymorth sydd wedi'i ymgorffori a ddarperir gan yr holl staff addysgu ar draws y cwricwlwm yn cael ei fonitro trwy'r cylch ansawdd a llwyddiant mewn cymwysterau llythrennedd/cyfathrebu a rhifedd lle cânt eu haddysgu.

9. Y Gymraeg

- 9.1 Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ymrwymedig i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.